



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2016 – 2017

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol,  
rhowch wybod inni a byddwn yn gwneud yr hyn y gallwn ni ei wneud i'ch  
helpu.

## Croeso

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein pedwerydd adroddiad blynyddol am gyflawniadau Cyfoeth Naturiol Cymru a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Fel sefydliad allweddol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau pwysig i gymunedau a busnesau Cymru, ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu cyfleoedd cyfartal ar gyfer pawb. Fel cyflogwr, rydym wedi ymroddi i adeiladu sefydliad sy'n cynrychioli cymdeithas Cymru, ac sy'n gwneud llawn ddefnydd o dalentau, sgiliau a phrofiad ein holl bobl. Fel darparwr gwasanaethau, rydym wedi ymroddi i ddarparu gwasanaethau sy'n hygyrch, sy'n gwaredu ar wahaniaethu, ac sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, yn dathlu amrywiaeth, ac yn sicrhau ein bod yn gynhwysol ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Rydym yn croesawu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn creu deddfwriaeth fodern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru, sydd yn eu tro'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bydd ein hegwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ein cynorthwyo i weithredu'r ddwy ddeddf hyn i sicrhau ein bod yn meddwl mwy am y tymor hir, gan weithio'n well gyda phobl a chymunedau, yn ogystal â chyrrff statudol eraill, a chan geisio datrys problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o weithredu mewn modd cynaliadwy.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn elfen ganolog wrth gyflawni llwyddiant busnes, ac rydym am sefydlu ein gwaith cydraddoldeb wrth wraidd y ffordd rydym yn cynllunio a darparu ein gwasanaethau.

**Diane McCrea**  
**Cadeirydd**

**Dr Emyr Roberts**  
**Prif Weithredwr**

## Contents

Croeso.....	2
Crynodeb Gweithredol.....	4
Cydymffurfio â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.....	4
Materion allweddol .....	5
Amcanion Llesiant .....	5
Arolwg Pobl 2016 .....	5
Cadarnhaol ynglŷn â phobl anabl .....	6
Polisiâu cydraddoldeb .....	6
Ein gweithlu .....	7
Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau .....	7
Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle 2017 .....	7
Crynodeb o daith Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall .....	8
Caffael.....	8
Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb .....	8
Gweithgareddau hamdden a mynediad.....	9
Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. ....	9
Rhwydweithiau Staff.....	10
Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2016–17 .....	11
Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2017–18 .....	11
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.....	11
Strategaeth Pobl a Thimau.....	11
Diweddariadau Cyfarwyddiaethau .....	12
Diweddariadau Rhwydweithiau Staff .....	15
Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyr (TG a Theleffoni).....	15
Cymdeithas Gristnogol .....	16
Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywedd a Menywod.....	16
Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol. ....	17

## Crynodeb Gweithredol

Er mwyn cyflawni ein diben, ar hyn o bryd mae gennym 1,865 aelod o staff wedi'u lleoli ledled Cymru mewn amrywiaeth o rolau, ac rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chymunedau, ynghyd ag amrediad eang o bartneriaid yn y trydydd sector, i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer pobl Cymru.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn pennu ein diben statudol.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru:

- geisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy mewn perthynas â Chymru
- gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Rydym yn deall y cyfraniad hanfodol y gall ein gwaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ei wneud at y gwaith o ddarparu busnes llwyddiannus. Mae'n bwysig sicrhau ein bod yn gwneud llawn ddefnydd o dalent, sgiliau a phrofiad ein staff a'n partneriaid, a sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu darparu ar gyfer pobl a chymunedau Cymru yn gynhwysol ac yn deg.

Rydym wedi bod yn edrych yn fanwl arnom ni ein hunain dros y flwyddyn ddiwethaf, a byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i gyflawni ein gwaith. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein meysydd busnes, a fydd yn ei dro'n golygu y bydd ein strwythur busnes yn edrych yn wahanol wrth inni addasu i ddiwallu ein hanghenion yn y dyfodol er mwyn inni gyflawni'r canlyniadau gorau. Mae'n hanfodol ein bod yn gofalu am ein pobl yn ystod y cyfnod o newid hwn, ac yn sicrhau bod ein Strategaeth Pobl a Thimau yn llawn ystyried amrywiaeth ein pobl ni.

Mae ein cyfradd hunanddatgelu'n parhau i wella, ac rydym bellach yn gwybod nodweddion gwarchoddedig 67% o'n pobl ni. Mae hyn yn enwedig o bwysig gan fod gwybod y wybodaeth hon yn ein cynorthwyo i sicrhau bod ein pobl yn derbyn y cymorth cywir.

Mae ein bwrdd yn parhau i gefnogi ein hagenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gennym hyrwyddwr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant neilltuedig newydd ar ein bwrdd, Zoë Henderson, sydd â'r rôl o sicrhau bod cydraddoldeb yn parhau i fod yn ganolog i drafodaethau a phenderfyniadau'r bwrdd, ac mae hi'n hanfodol wrth ymestyn presenoldeb gweladwy a phroffil uchel ar gyfer ein gwaith cydraddoldeb, nid yn unig gydag aelodau staff a rhwydweithiau staff, ond hefyd gyda'n cwsmeriaid ni, ynghyd â sefydliadau allanol.

## Cydymffurfio â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae'r Dyletswyddau Penodol i Gymru yn datgan ei bod yn rhaid inni gynnwys pobl yr ydym yn ystyried eu bod yn cynrychioli un neu fwy o'r grwpiau gwarchoddedig, ac sydd â diddordeb yn y ffordd rydym yn cyflawni ein swyddogaethau. Mae'r ddyletswydd i ymgysylltu hon yn darparu gwybodaeth a chynghor arbenigol ar ein cyfer ni, o ran deall y problemau a'r rhwystrau allweddol sy'n wynebu pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Yna, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gyflawni nodau a rennir ac i wneud penderfyniadau gwell – er enghraifft, wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau a phennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae asesu'r effaith ar grwpiau gwarchoddedig yn un o'r ffyrdd allweddol y gallwn ddangos ein bod wedi rhoi'r 'sylw dyledus' i'r mater.

## Materion allweddol

### Amcanion Llesiant

Rydym wedi datblygu amcanion llesiant mewn modd cydweithiol a thrwy weithdai mewnol ac allanol. Rydym wedi rhannu ein dysgu a'n prosesau â chyrff cyhoeddus eraill trwy weithdai Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi bod yn werthfawr iawn. Rydym yn ystyried mai hwn yw'r cam cyntaf yn y gwaith o ddod â'n hamcanion llesiant yn agosach i rai cyrff cyhoeddus eraill, a'r flwyddyn nesaf byddwn yn ddechrau cysylltu'r rhain â'r amcanion llesiant sy'n dod o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae ein hamcanion llesiant fel a ganlyn:

- Hyrwyddo amgylchedd Cymru a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy
- Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig
- Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau
- Amddiffyn pobl a chymunedau rhag peryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd
- Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus
- Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol, sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb beri difrod iddynt
- Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

### Arolwg Pobl 2016

Ym mis Ebrill 2016, gwnaethom gynnal ein hail Arolwg Pobl mewnol. Cawsom ymateb da gan ein staff, gyda 82% o'r sefydliad yn cymryd rhan. Mae'r canlyniadau'n dangos ei bod yn rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd i annog diwylliant o ymddiriedaeth, ac ymgysylltu â phawb yn llawer mwy o ran sut rydym yn cynllunio a rhedeg Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn cael y gorau gan y bobl a'r sgiliau cyfunol sydd gennym.

Rydym yn ymwybodol iawn bod y rhaglenni newid diweddar a'r rhai cyfredol – yn ogystal â chyllidebau llai a gweld rhai o'n cydweithwyr ni'n gadael o dan y cynllun ymadael gwirfoddol diwethaf – wedi bod yn gostus i lawer ohonom, o ran ansicrwydd ac aberth personol.

Rydym yn gwerthfawrogi'r safbwyntiau a roddodd pobl yn yr arolwg yn fawr iawn, ac rydym yn defnyddio'r canlyniadau i flaenoriaethu gwaith y gweithgorau Datblygu Pobl a Thimau, sy'n cynnwys staff o bob rhan o'r sefydliad, yn ogystal â phob gradd, o'r uchaf i'r isaf.

Bydd ein harolwg nesaf yn cael ei drefnu i gyd-fynd ag arolwg pobl y Gwasanaeth Sifil, a fydd ym mis Hydref. Bydd hyn yn ein galluogi i'n meincnodi ein hunain yn fwy cywir yn allanol, wrth inni barhau i edrych yn graff ar y data a roddwyd gan y tueddiadau yn ein canlyniadau ein hunain.

### Teitlau

Rydym wedi adolygu'r ffordd rydym yn gofyn am deitlau pobl ar ein ffurflenni cais a'n pyrth ar y we.

Datgelodd yr arolwg lu o anghysondebau sydd angen eu datrys megis:

- Yr hierarchaeth gwryw gyntaf, wedyn menyw (Mr wedyn Mrs, Arglwydd wedyn Arglwyddes)
- Diffyg opsiwn diryw (Mx, a yngenir yn /mics/)
- Diffyg opsiwn 'mae'n well gennyf beidio â dweud'
- Diffyg opsiwn 'arall' gyda blwch testun rhydd ar gyfer dewis y cwsmer

Yn dilyn llawer o drafodaeth, cyngor cyfreithiol a chymeradwyaeth y Prif Weithredwr, bellach mae gennym ffordd safonol ar gyfer gofyn am deitlau:

Miss

Ms

Mr

Mrs

Mx

Doctor

Mae'n well gennyf beidio â dweud

Arall \_\_\_\_\_

O ystyried ansawdd y ffurflenni a'r pyrth rydym yn eu defnyddio, bydd yn cymryd amser i fabwysiadu'r set hon o gwestiynau ym mhopeth rydym yn ei wneud. Fodd bynnag, byddwn yn defnyddio'r set hon o gwestiynau pan fyddwn yn adolygu ein ffurflenni a'n gwasanaethau. Rydym yn falch ein bod yn cymryd camau tuag at gynnig ffordd fwy modern o ofyn.

### Cadarnhaol ynglŷn â phobl anabl

Ym mis Awst 2016, rhoddwyd achrediad 'Hyder mewn Pobl Anabl' inni gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r cynllun hwn yn disodli cynllun 'dau dic' yn gadarn o blaid pobl anabl. Mae ein hagwedd gadarnhaol tuag at staff a darpar gyflogeion yn sicrhau ein bod yn parhau i gyfweld ag unrhyw ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf swydd gofynnol ac sy'n ei ystyried ei hun yn anabl yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 o anabl.



Yn ystod 2016–17, cawsom gyfanswm o ddeg ymgeisydd mewnol a wnaeth gais am gyfweliad gwarantedig. Cyfwelwyd ag wyth ohonynt ac ni chyrrhaeddodd dau ohonynt y rhestr fer gan nad oeddent yn bodloni'r meini prawf gofynnol.

### Polisiau cydraddoldeb

- Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (lansiwyd fis Hydref 2015)
- Polisi Hunaniaeth Rywedd (lansiwyd fis Hydref 2016)

Mae ein Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cydnabod manteision bod â gweithlu amrywiol ac y byddwn yn ymdrechu dros degwch a chydaddoldeb o ran cyfleoedd ym mhob maes cyflogaeth, gan nodi a thynnu rhwystrau sy'n atal unrhyw gyflogai rhag symud ymlaen a datblygu ei botensial.

Mae'r Polisi Hunaniaeth Rywedd yn mynd ymhellach byth trwy gynnwys y wybodaeth a'r cymorth penodol sydd eu hangen ar staff a rheolwyr ynghylch mater na wyddys llawer amdano ar adegau, sef hunaniaeth o ran rhywedd. Rydym yn cydnabod y cyfraniad unigryw y gall staff trawsrywiol ei wneud at gryfderau ein sefydliad.

Yn anffodus, gall pobl drawsrywiol hefyd brofi gwahaniaethu ac aflonyddwch yn y gweithlu. Er mwyn mynd i'r afael a'r broblem hon, mae angen inni wneud ein gweithle'n gyfeillgar i bobl drawsrywiol. Mae'r pwyslais ar 'gyfeillgar', er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd mynd y tu hwnt i'n polisi bwlio ac aflonyddu a chreu diwylliant sy'n galluogi pobl i fod yn agored ynghylch eu hunaniaeth rywedd.

## Ein gweithlu

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio, lle bynnag y bo modd, bod yn fwy cynrychioladol o bobl Cymru. Bydd y dull hwn o weithredu'n wirioneddol fanteisiol inni i gyd. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn monitro pwy yw ein pobl, ac wedyn yn cymharu ein hunain i nodi meysydd penodol i ganolbwyntio ein hymdrechion arnynt.

Er enghraifft, rydym yn gwybod o ymchwil gan Brifysgol Caerdydd bod dynion yng Nghymru yn dal bron dwy ran o bob tair (64%) o'r holl swyddi llawn amser sydd ar gael, tra bo menywod yn dal tua 80% o'r holl swyddi rhan amser sydd ar gael.

Wrth edrych ar ein patrymau gwaith ein hunain, gwyddom ein bod ni'n adlewyrchu canfyddiadau Prifysgol Caerdydd, yn gymaint â bod 64% o ddynion a 36% o fenywod yn llawn amser, ac o ran staff rhan amser, mae 80% yn fenywod a 20% yn ddynion.

Trwy wneud cymariaethau o'r fath, gwyddom ein bod yn cynrychioli poblogaeth Cymru o ran rhyw a phatrymau gweithio. Mae hyn yn ein caniatáu i ganolbwyntio ymdrechion lle nad ydym yn hollol gynrychiadol, a byddwn yn parhau i weithio tuag at fod yn gyflogwyr sydd â gweithle sy'n adlewyrchu poblogaeth Cymru.

## Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Ym mis Tachwedd 2015, gwnaethom gynnal ein dadansoddiad diwethaf o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, a'r ffigur y tynnwyd sylw ato oedd bod 7.78% o wahaniaeth yn y dosbarthiad o enillion gros bob awr. Ar hyn o bryd, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Gwasanaeth Sifil yw 9.8%, gostyngiad o 11% yn 2014.

Rydym bron wedi gorffen ymarfer gwerthuso swyddi a fydd yn adlinio cyfraddau cyflog ac yn rhoi cysondeb ar draws y sefydliad, a phan fydd wedi'i gwblhau, byddwn yn cynnal dadansoddiad o'r gweithlu a data ynglŷn â chyflogau gan ddefnyddio'r dull Dadansoddi Cyflogaeth a Chyflog Dynion a Menywod a ddyluniwyd gan raglen Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi Prifysgol Caerdydd.

Dyluniwyd y dull hwn i'n caniatáu ni i gasglu tystiolaeth a llunio cynlluniau gweithredu, a chyflawni ein gofyniad statudol yn unol â Dyletswydd Cyflogau Cyfartal Cymru.

## Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle 2017

Yn ystod mis Ionawr 2017, cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun yn y 184ain safle yn y DU ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Mae hyn yn ostyngiad o 24 safle ers y llynedd, yn bennaf oherwydd llwyddiant y sefydliadau newydd sydd wedi ymuno â'r mynegai.

I gynnal yr un sgôr â'r llynedd, mae angen i sefydliadau wella o tua 10%. Yn ystod 2016, fe wnaethom wella ein sgôr ni gan 7%.

Er bod ein lle yn y tabl wedi gostwng, rydym yn dal i fod yn falch o fod yn y 50% uchaf o sefydliadau'r DU a'r 15fed cyflogwr gorau yng Nghymru.

<b>Crynodeb o daith Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall</b>			
Blwyddyn Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall	Safle Cyfoeth Naturiol Cymru	# Cyfranogwyr (DU)	Cynnydd yn safle Cyfoeth Naturiol Cymru
2014	296	369	
2015	238	397	↑ 58
2016	160	415	↑ 78
2017	<b>184</b>	439	↓ 24



## Caffael

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus penodol yng Nghymru sy'n canolbwyntio'n benodol ar [gaffael](#) ac sy'n cydnabod pa mor bwysig yw'r trosoledd mae caffael yn ei ddarparu. Mae hyn yn sail i'n holl amcanion a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn achub pob cyfle trwy gaffael cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ac i wella arferion cyflogaeth.

Mae'r ddyletswydd benodol yn golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus Cymru:

- roi'r sylw dyledus i ystyried a fyddai'n briodol i'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r contract hwnnw gynnwys ystyriaethau i gynorthwyo yn y gwaith o fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- rhoi'r sylw dyledus i ystyried a fyddai'n briodol pennu amodau sy'n cynorthwyo yn y gwaith o fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol

Rydym wedi datblygu a gweithredu Cynllun Ymagwedd y Farchnad. Diben Cynllun Ymagwedd y Farchnad yw pennu'r strategaeth gaffael ar gyfer pryniant penodol. Mae Cynllun Ymagwedd y Farchnad yn gofyn cwestiynau am y pryniant er mwyn nodi'r gofynion craidd ac yn datgan, lle y nodir bod cydraddoldeb yn ofyniad allweddol, ei bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod y gofynion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys ym manyleb y contract.

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, 2016–17, mae nifer o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb pwysig wedi cael eu cynnal, yn enwedig mewn meysydd megis y gwaith o greu ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes newydd. Mae prosiectau mawr penodol hefyd wedi cael Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb megis gwerthuso swyddi, adolygiadau



llety, a rhaglenni newid y Tîm Uwch-reolwyr a'r Tîm Arweinyddiaeth, yn ogystal â'r wyth Adolygiad Maes Busnes.

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn parhau wrth i newidiadau sefydliadol gael eu sefydlu, a byddwn yn ceisio cyfleoedd allweddol newydd i weithio trwy waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rydym yn eistedd arnynt. Cyflwynodd y 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 20 Asesiad Llesiant yn ystod 2016–17, ac yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn cynorthwyo i ddatblygu'r cynlluniau llesiant, a fydd yn cael eu cyhoeddi rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018.

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael [ar gais](#) yn Saesneg neu yn Gymraeg, yn ogystal ag ieithoedd eraill a fformatau hygyrch.

### Gweithgareddau hamdden a mynediad

Mewn cydweithrediad â chwmni ymgynghori Phil Chambers, rydym wedi cwblhau ein gwaith asesu'r effaith ar gydraddoldeb ym mhump o'n canolfannau ymwelwyr, yn ogystal â Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coedwig Niwbwrch. Mae'r adroddiad wedi gwneud llawer o argymhellion y byddwn yn gallu gweithredu arnynt dros y blynyddoedd nesaf wrth i gyllidebau ganiatáu. Ceir [Crynodeb Gweithredol](#) ar ein gwefan ac mae copi o'r adroddiad llawn ar gael [ar gais](#).

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Synhwyrdd i ddiweddarau'r cyhoeddiad 'Trwy bob dull rhesymol: Mynediad lleiaf cyfyngol at yr awyr agored'.

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu datblygu yn rhan o ymroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfleoedd i gael mynediad at y cefn gwlad a mannau agored.

Mae'r canllawiau'n ymateb i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan ddiweddarau ac ehangu'r ddogfen wreiddiol a gyhoeddwyd yn 2005 a chroesawu amrediad ehangach a mwy amrywiol o ymwelwyr. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y bydd mynediad gwell yn fuddiol i bob ymwelwr, gan fod amrywiaeth yn edau trwy bobl o bob oedran, amgylchiad personol a chefnidir.

Bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi'n gynnar yn 2017–18, ac mae'n debygol y bydd eraill yn eu mabwysiadu fel y ddogfen ddiffiniadol ar y pwnc.

### Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae'r Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gweithredu i arwain y gwaith o gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a ddisgrifir yn ein Cynllun Corfforaethol.

Mae'r fforwm hefyd yn cynorthwyo yn y gwaith o sefydlu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar y busnes, yn ogystal â gwaredu rhwystrau a herio rhagdybiaethau, gan geisio cyfleoedd inni ein hunain, ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid.

Aelodau o'r fforwm

- Cadeirydd (Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl)
- Hyrwyddwr Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru
- Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Tîm Gweithredol
- Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Un cynrychiolydd o bob cyfarwyddiaeth:
  - Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth
  - Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

- Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
- Swyddfa'r Prif Weithredwr
- Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl
- Gweithrediadau – Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Gweithrediadau – De Cymru
- Un cynrychiolydd o bob un o'n holl undebau llafur cydnabyddedig ni
- Un cynrychiolydd o bob rhwydwaith staff

## Rhwydweithiau Staff

Rydym yn parhau i weithio gyda'n staff ni i'w hannog i sefydlu rhwydweithiau ar gyfer y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig. Ar hyn o bryd, mae gennym bedwar rhwydwaith staff:

- Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyr (TG a Theleffoni)
- Cymdeithas Gristnogol
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywedd a Menywod
- Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol

Rhodddwyd presenoldeb ar y fewnrwyd i'n holl rwydweithiau ac maent yn dilyn eu cylch gorchwyl eu hunain. Mae diweddariad gan arweinwyr y rhwydweithiau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Cyfeillion Dementia

Mae ein staff wedi dechrau trefnu sesiynau gwybodaeth Cyfeillion Dementia ar gyfer unrhyw un sydd am ddod. Trefnwyd saith sesiwn rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017, gyda chyfartaledd o 15 o bobl yn mynychu pob un – gan greu tua 100 o gyfeillion dementia newydd trwy gydol y sefydliad y flwyddyn hon.

O ystyried y diddordeb mae'r sesiynau hyn wedi'i ennyn, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dechrau ar y broses o fod yn sefydliad cyfeillgar i ddementia achrededig o fis Ebrill 2017. Mae gwneud hyn yn cymryd nifer o flynyddoedd, fel arfer tair, ac y byddwn yn gweithio gyda Chymdeithas Alzheimer Cymru i bennu amcanion blynyddol yn ystod y cyfnod hwn ac yn mesur ein cynnydd. Mae manylion yr ymroddiad hwn yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2017–18.

Ar hyn o bryd, rydym yn drafftio cynlluniau gweithredu lefel uchel sy'n amlinellu ein hamcanion ar gyfer blwyddyn gyntaf y broses achredu. Byddwn yn cofrestru Cyfoeth Naturiol Cymru a'r targedau y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn gyntaf gyda Chymdeithas Alzheimer Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2017.

Trwy ddod yn sefydliad cyfeillgar i ddementia, byddwn yn datblygu diwylliant sy'n deall ac yn cefnogi staff mae'n bosibl bod dementia'n cael effaith uniongyrchol arnynt – naill ai fel unigolyn sy'n byw gyda'r cyflwr neu fel gofalwr. Byddwn yn galluogi pob aelod o staff i gael mynediad at hyfforddiant wyneb yn wyneb neu hyfforddiant ar-lein er mwyn iddynt ddysgu mwy am y cyflwr a chofrestru fel cyfaill dementia. Yn ei dro, bydd hyn yn galluogi aelodau o'n sefydliad i ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysol ar gyfer ein cymunedau lleol, ar lefel broffesiynol ac ar lefel breifat.



## Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2016–17

Datblygwyd ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i gynnal y gwaith o gyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru 2015 hyd 2019. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu mewn un lle ein hamcanion a threfniadau eraill ar gyfer ymsefydlu cydraddoldeb yn ein holl swyddogaethau. Mae'n cyfrannu at ein diben ac yn cael ei ategu gan ein gwerthoedd a datganiad polisi sy'n amlinellu ein hymrwymiad i gydraddoldeb.

Mae diweddariad ar ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2016–17 yn Atodiad 1.

## Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2017–18

Un o'r newidiadau allweddol i'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb nesaf fydd ei ddyluniad. Rydym wedi sicrhau bod ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn canolbwyntio mwy ar feysydd allweddol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o bobl a chymunedau yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi newidiadau diwylliannol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac o ystyried y ddeddfwriaeth newydd, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd canlynol, ymhlith eraill:

### **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae angen arnom sicrhau bod yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei chynnwys yng ngwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i sicrhau bod y nodau llesiant yn cael eu llawn uchafu, gan y bydd y Cynlluniau Llesiant yn cael eu drafftio eleni. Mae 20 ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru, sy'n cael eu gwasanaethu gan 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (mae un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol am ddwy ardal). Mae gennym wir gyfle i sicrhau bod newidiadau cadarnhaol yn cael eu gwireddu, a'u bod yn cynnwys pob cymuned a'r holl grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Gwyddom fod adnoddau naturiol yn gwneud cyfraniad sylweddol at lesiant corfforol a meddyliol pobl yng Nghymru.

### **Strategaeth Pobl a Thimau**

Yn fewnol, bydd llawer o waith yn cael ei wneud gan y gweithgorau Pobl a Thimau a'r sefydliad ehangach i weithredu newid yn ein diwylliant. Dros y flwyddyn ariannol nesaf, bydd y Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddylunio a gwireddu'r allbynnau o'r strategaeth hon, gan lawn ystyried y ffaith nad yw'r un olwg ar bawb, ac nad ydynt yn meddwl nac yn ymddwyn yn yr un ffordd.

Byddwn yn cynorthwyo yn y gwaith o gyflawni ein Strategaeth Pobl a Thimau i helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddod yn lle gwych i weithio a thyfu ynddo, fel bod modd i bobl a thimau ragori a chyflenwi perfformiad busnes gwell yn barhaus.

Mae'r cynllun newydd sy'n cynnwys y wybodaeth hon ar ein [gwefan](#). Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ar ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'n Cynlluniau Gweithredu.

---

## Diweddariadau Cyfarwyddiaethau

### Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth

Mae Cyfarwyddiaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth wedi ymroddi i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Mae'r cyflawniad sy'n sefyll allan yw bod y gwefan cyfoethnaturiol.cymru bellach yn y safle uchaf o 208 safle yn y [Mynegai Sitemorse <https://sitemorse.com/index/report-table.html?rt=1291&v=blobs>](https://sitemorse.com/index/report-table.html?rt=1291&v=blobs) o wefannau Llywodraeth Ganolog y DU ar gyfer hygyrchedd. Mae hyn i'w gymharu â'r 185ain safle ar yr un adeg y llynedd. Mae'r mynegai yn edrych ar safon y cod, dolenni wedi torri, sillafu, y defnydd o ddisgrifiadau testun amgen ac ati, i'w gwneud yn haws i bobl sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol (e.e. darllynyddion sgrin ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg) i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar welliannau pellach i brofiad y cwsmer o ddefnyddio ein gwefan, a byddwn yn profi'r rhain am hygyrchedd cyn eu lansio ym mis Ebrill, gyda'r nod o gynnal ein perfformiad cyfredol.

Rydym wedi helpu i hyrwyddo ein gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad trwy'n holl sianeli corfforaethol.

### Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Mae Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu wedi chwarae rôl allweddol wrth gynllunio a datblygu gwaith ar gyfer cymunedau yng Nghymru, gan gynnwys dylunio llwybrau synhwyaidd, gweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf, sefydlu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, a datblygu ardaloedd Ysgolion Coedwig at ddefnydd ysgolion lleol a grwpiau cymunedol.

Mae'r Tîm Cyllid Strategol, ochr yn ochr â'r Timau Partneriaeth, wedi cydlynu dwy rownd o gyllid grant Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae £9 miliwn o gyllid wedi cael ei glustnodi i amrediad eang o brosiectau sy'n cyflawni gwaith dros fioamrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau, mynediad, gweithgareddau hamdden, addysg a chymunedau. Yn ystod yr ail rownd o gyllid cystadleuol yn 2015, gofynnwyd i ymgeiswyr yn benodol am brosiectau a oedd yn cyfrannu at welliannau i fioamrywiaeth ar safleoedd Natura 2000, ond a oedd hefyd yn ymgorffori cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned leol a/neu wirfoddoli.

### Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol wedi llwyddo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn nifer o ffyrdd. Mae ein timau TGCh wedi bod yn gweithio gyda staff anabl i sefydlu a datblygu technoleg ar gyfer defnyddwyr a gynorthwyr ac i ymgorffori hon o fewn y sefydliad. Rydym yn adolygu ac yn uwchraddio'r rhaglenni hyn yn barhaus, ac yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Defnyddwyr a Gynorthwyr i gyflawni hyn.

Mae ein Tîm Recriwtio Gwasanaethau Cymorth Busnes wedi bod yn ymgorffori polisiâu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein prosesau recriwtio a, lle bo angen, yn tynnu sylw at ardaloedd o gyfle ar gyfer staff anabl, gan sicrhau ein bod yn bodloni'r meini prawf yn hyderus i ddweud rydym yn Gyflogwr Hyder mewn Pobl Anabl. Mae'r Tîm Taliadau o fewn Gwasanaethau Cymorth Busnes hefyd wedi darparu cymorth uniongyrchol i Arweinydd ein

Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, gan ei ganiatáu i yrru'r rhwydwaith yn ogystal â chymryd rhan yn y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae Gwasanaethau Cymorth Busnes hefyd yn rhedeg y system MyNRW, sy'n monitro ac yn diogelu'r wybodaeth hunanddatgelu gyfrinachol mae ein staff yn ei chwblhau ynglŷn â rhyw, ethnigrwydd, rhywioldeb a statws anabled, ymhlith gwybodaeth arall.

Mae'r Tîm Caffael wedi llwyddo i gynorthwyo yn y gwaith o sicrhau bod Cynllun Ymagwedd y Farchnad yn ystyried materion cydraddoldeb a bod Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr Llywodraeth Cymru wedi cael ei llawn ymgorffori, sy'n cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb. Gwnaethant hefyd gynorthwyo'r Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol i gwblhau ein cyflwyniad i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, gydag adran gyfan ar sut rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau.

## Gweithrediadau – Gogledd a Chanolbarth Cymru

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, roedd yn bleser gennym groesawi Phil Chambers i Weithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth, lle y cynhaliodd adolygiad o fynediad yn ein canolfannau ymwelwyr ac yng Nghoedwig a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda'n tîm ni, ymweliadau safle, a hefyd trafodaethau ag aelodau'r cyhoedd. Roedd yn dda derbyn adborth mor gadarnhaol gan Phil am ein safleoedd, mynediad, a'r cyfleusterau a'r llwybrau a oedd ar gael ar gyfer y rhai a chanddynt symudedd cyfyngedig. Mae cryn waith i'w wneud i weithredu ei holl argymhellion, ond mae'n dda nodi bod yr holl argymhellion yn ymwneud â gwella pethau sydd eisoes yn dda, yn hytrach na datrys problemau.

Gwnaethom asesu'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynys-las yn ddiweddar, ac edrych ar y pethau sy'n peri pwysau, megis y nifer fawr o ymwelwyr sy'n dod i'r traeth yn Ynys-las yn ystod misoedd yr haf. Er mwyn rhoi mynediad mwy hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn, rydym wedi adeiladu llwybr byrddau newydd sy'n cysylltu'r traeth â'r Ganolfan Ymwelwyr, gan roi mynediad haws trwy'r twyni, a gobeithir y byddwn yn gweld rhagor o ymwelwyr byth.

Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgynghoriad cyhoeddus eleni, gan gynnwys cynlluniau rheoli perygl llifogydd a cheisiadau am drwyddedau, ac ymgysylltiad y gymuned ynghylch Coedwig Niwbwrch a'r Warchodfa Natur Genedlaethol. Roedd yr holl ddigwyddiadau hyn yn caniatáu mynediad ar gyfer pobl anabl, a gwnaethom hefyd sicrhau cymysgedd o staff Cymraeg eu hiaith a staff nad ydynt yn medru'r Gymraeg, i alluogi ein holl gwsmeriaid i siarad â ni yn eu hiaith ddewisol.

Rydym yn chwarae rhan gyflawn ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws gogledd a chanolbarth Cymru, ac rydym wrth ein boddau gweld y rhain yn datblygu. Mae hyn yn gyfle da inni weithio gydag eraill a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu er mwyn darparu gwasanaethau sydd eu heisiau a'u hangen ar y cymunedau mewn ffordd gydgyssylltiedig. Bydd hyn yn datblygu ymhellach dros y flwyddyn nesaf neu fwy, ond ar hyn o bryd rydym yn edrych ar amrywiaeth o faterion megis:

- Sut y gall ein safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer 'Rhagnodi Cymdeithasol' i bobl sydd ag afiechydon cronig – er enghraifft, trwy ragnodi ymarfer corff yn yr awyr agored i'r rhai a chanddynt broblemau gyda'u cymalau, problemau iechyd meddwl neu bwysedd gwaed uchel, a hefyd cysylltu'r celfyddydau â'r dirwedd – eto, ar gyfer y rhai sydd ag afiechydon cronig.
- Gordewdra mewn plant a phrofiadau plentyndod andwyol. Beth gallwn ei wneud i weithio gydag eraill i drechu'r rhain?

- Mae economi, iaith, arwahanrwydd cymdeithasol, amddifadedd cymdeithasol a phethau eraill i gyd yn bwyntiau trafod hefyd, ac mae'n debygol y bydd angen inni newid rhai o'n ffyrdd o feddwl ni, a rhai o'n ffyrdd o weithio ni i drechu'r problemau hyn mewn partneriaeth gydag eraill.
- Yn ogystal, fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, rydym yn edrych ar ein nodau llesiant ein hunain, a sut y gallai sefydliadau eraill gynorthwyo yn y gwaith o gyflawni'r rhain er budd ein cymunedau.

## Gweithrediadau – De Cymru

Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau a gwaith ymgysylltu gweithrediadol, sy'n dangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb a sut rydym wedi ymgorffori cynhwysiant yn ein safonau gwasanaeth.

Trwy adeiladu'r amddiffynfeydd llifogydd newydd yn Rhisga, rydym wedi sicrhau eu bod yn caniatáu mynediad hawdd trwy Barc Waunfawr ar gyfer pawb. I gyflawni hyn, rydym wedi gosod fflodiart y bydd ein Tîm Cyflawni Gweithrediadau yn ei gweithredu pan fydd llif yr afon yn uchel. Mae'r fflodiart yn lle arglawdd parhaol. Arglawdd fyddai wedi bod yr opsiwn haws ar gyfer y cynllun rheoli llifogydd, ond byddai topograffeg y parc wedi gofyn am rampiau i fyny a dros ein hamddiffynfa, gan wneud mynediad ar gyfer pobl anabl yn fwy anodd. Felly, gwnaethom osod y fflodiart gan fod yr opsiwn hwn yn uchafu mynediad at y mwynder hamdden pwysig hwn.

Mae enghreifftiau pellach yn cynnwys ein gwaith ar brosiect 'Down to Earth', sydd wedi bod yn rhedeg ers 2005 ar bwys Abertawe ac sy'n arbenigo mewn cynorthwyo'r cymunedau 'anhawsaf eu cyrraedd' a mwyaf difreintiedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, cynaliadwy yn yr awyr agored. Mae'r prosiect nid yn unig yn datblygu cyfleusterau ac amgylchedd cymunedau, ond hefyd yn datblygu eu sgiliau a llesiant personol trwy gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant achrededig. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, trwy ein rhaglen grantiau, rydym wedi helpu i ariannu prosiect Cynnal Coedwigoedd Ynn Gŵyr, lle mae gwirfoddolwyr o grwpiau anodd eu cyrraedd yn gweithio yn y coedwigoedd i wella mynediad ac i reoli rhywogaethau goresgynnol. Mae'r gwaith yn cael ei oruchwylio ac mae'n arwain at hunanhyder uwch a dysgu sgiliau ymarferol trosglwyddadwy fel rhan o gynllun hyfforddi achrededig.

Rydym wedi rhoi blaenoriaeth uchel yn ein gwaith i fynediad ar gyfer pobl anabl. Rydym wedi hwyluso mynediad ar gyfer pob gallu trwy ein cynllun Mynediad, gan gynnwys y grŵp cymunedol 'Pont' yng Ngheredigion (Pontrhydfendigaid), lle mae'r grŵp hwn, gyda chymorth cyllid gan Gronfa Ardoll Agregau Cymru, wedi datblygu cyfres o safleoedd addysgol a llwybr sy'n hygyrch i bobl o bob gallu mewn coedwig gymunedol ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Yng Ngarwnant, rydym wedi gweithio gyda Forest Holidays i gael caniatâd cynllunio ar gyfer 40 caban pren yng Nghoedwig Coed Taf. Mae'r datblygiad hwn yn cynnwys cabanau sy'n hygyrch i bobl o bob gallu, yn ogystal â safle sy'n hygyrch i bobl o bob gallu yn y ganolfan ymwelwyr. Rydym hefyd wedi trwsio plattform pysgota i'r anabl ar Afon Tawe ar bwys Clydach, ac rydym yn adeiladu rhai plattformau pysgota 'mynediad i bawb' ym Mhyllau Tregatwg yn y Barri ar y cyd â Chlwb Pysgota Morgannwg.

Mae gan brosiect Coetir Ysbryd Llynfi lawer o enghreifftiau o gynhwysiant a chyfranogiad cymunedol. Rydym wedi cysylltu â Grŵp Teuluoedd Arbennig Maesteg (elusen wedi'i sefydlu gan rieni lleol sydd â phlant a chanddynt anghenion ychwanegol) i ddatblygu cromen helyg ar y safle, a llunio cynlluniau ar gyfer llwybr synhwyrdd ar y safle, ac rydym wedi gweithio gyda Choed Lleol, Active Nutrition a chontractwr i ddylunio set o fanylion safonol ar gyfer offer campfa werdd yn rhan o lwybr iechyd ar y safle yn y dyfodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bartner allweddol ym Mhartneriaeth Tirweddau Gwastadeddau Byw, sy'n derbyn cymorth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Yn ystod gweithgareddau 'Cam Datblygu' diweddar, gwnaeth Swyddog Ymgysylltu Cymunedol Gwastadeddau Byw gwrrd â Chyngor Cydraddoldeb Hil De-ddwyrain Cymru (SEWREC) i drafod sut y gall y prosiect gynnwys cymunedau o gefndiroedd ethnig gwahanol a chymunedau agored i niwed, yn enwedig yn ne Casnewydd. Disgwylir y bydd gwirfoddoli'n ganolog i'r ffordd mae'r prosiect yn cynnwys ac yn ysbrydoli'r grwpiau hyn.

Megis yn y gogledd, mae Gweithrediadau'r De yn aelodau allweddol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a byddant yn parhau i weithio gyda nhw i sicrhau bod y cynlluniau llesiant sy'n cael eu datblygu'n llawn gynhwysol ac yn cydnabod cymysgedd amrywiol poblogaethau de Cymru. Un enghraifft benodol yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltiad cyhoeddus ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu asesiadau llesiant, a oedd wedi'u trefnu mewn lleoliadau a oedd yn cynnig mynediad addas i bobl anabl, gyda chyfieithwyr Cymraeg ar gael, er mwyn i'r cyfarfod fod yn llawn ddwyieithog.

### Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl

Mae Cyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu llawn ymgorffori yn y gwasanaethau mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu darparu.

Mae ein Huwch-gynghorydd Cydraddoldeb yn cymryd rhan mewn llawer o grwpiau, gan gynnwys ein Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i ddarparu cyngor cyson ar gyfer grwpiau sy'n gweithio ledled y wlad. Mae eraill yn cynnwys grwpiau megis Rhwydwaith Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cwrdd yn rheolaidd i rannu'r arferion gorau.

Mae ein data hunanddatgelu'n cynnwys tua 70% o'r sefydliad, sy'n golygu y gallwn ystyried effeithiau posibl yn fwy hyderus (effeithiau cadarnhaol yn ogystal â rhai negyddol) trwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, wrth inni weithredu ein rhaglen newid sefydliadol.

Mae gwaith yn parhau gyda phrosiectau megis Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall (a gynhelir bob blwyddyn), sydd, er ei fod yn canolbwyntio ar gyfeiriadedd rhywiol, yn mynd ymhellach i roi cymorth i grwpiau eraill â nodweddion gwarchoddedig gyda heriau y tynnwyd ein sylw atynt trwy'r set o gwestiynau.

Bydd heriau yn y dyfodol ynghylch helpu i lunio'r diwylliant o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru trwy waith y Strategaeth Pobl a Thimau.

---

## Diweddariadau Rhwydweithiau Staff

### Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyr (TG a Theleffoni)

Mae gennym nifer o staff sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol megis y darlennydd sgrin a meddalwedd lleferydd i destun JAWS, Dragon Naturally Speaking, Zoom Test Reader, Dolphin Supernova ac ati. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau nad yw'r galedwedd a'r feddalwedd technoleg gwybodaeth, na'r systemau telefoni, yn peri anfanteision i bobl.

Cafodd y rhwydwaith staff hwn i sefydlu yn 2014 ac mae eisoes wedi bod yn allweddol yn y gwaith o sicrhau y gall ein holl staff ddefnyddio ein systemau, boed hynny aelodau staff presennol neu aelodau staff y dyfodol. Mae'r rhwydwaith eisoes wedi profi pecynnau meddalwedd newydd megis MyNRW, sydd ein system cyllid ac adnoddau dynol newydd. Mae'r rhwydwaith staff yn rhannu'r arferion gorau rhwng aelodau o'r grŵp, ac yn treialu systemau arfaethedig newydd gyda defnyddwyr ar ran y sefydliad. Un enghraifft o hyn yw cyfraniad y rhwydwaith at ddefnyddioldeb ein Harolwg Pobl 2016.

Gan fod y boblogaeth yn y gweithle sydd ag anableddau'n cynyddu'n barhaus, rydym hefyd wedi cynhyrchu canllawiau sy'n dangos i staff sut i greu cynnwys digidol mewn fformat hygyrch a fydd o fudd i Cyfoeth Naturiol Cymru cyfan. Rydym hefyd yn edrych ar gyhoeddi canllawiau a fydd yn gwneud cynnwys digidol yn haws ei ddarllen ar gyfer staff sy'n lliwddall.

Gan fod y boblogaeth yn y gweithle sydd ag anableddau yn cynyddu'n barhaus, rydym hefyd wedi cynhyrchu [canllawiau](#) sy'n dangos i staff sut i greu cynnwys digidol mewn fformat hygyrch a fydd o fudd i Cyfoeth Naturiol Cymru cyfan. Rydym hefyd yn edrych ar gyhoeddi canllawiau a fydd yn gwneud cynnwys digidol yn haws ei ddarllen ar gyfer staff sy'n lliwddall.

### Cymdeithas Gristnogol

Mae'r Gymdeithas Gristnogol wedi bod yn rhwydwaith yn Cyfoeth Naturiol Cymru ers dwy flynedd, ac ar hyn o bryd hi yw'r unig rwydwaith ffydd. Mae'n ceisio creu man lle y gall pobl ddod at ei gilydd a chefnogi ei gilydd trwy weddïo.

Mae'n bodoli i ddarparu cyfle a man yn y gwaith ar gyfer Cristnogion ac eraill sydd am gwrdd â'i gilydd i fyfyrion daweol ar egwyddorion Cristnogol ar gyfer bywyd, trafod testunau o ddiddordeb, a chynnig gweddïau a chymorth cydlynol ar gyfer y rhai yn y rhwydwaith ac ar draws y sefydliad.

Mae'r Gymdeithas Gristnogol ar gael i gynorthwyo ein rheolwyr ac i ymateb i ymgynghoriadau ar bolisiâu, gweithdrefnau a rhaglenni newid sy'n effeithio ar y rhai sy'n dilyn y ffydd Gristnogol. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cydnabod bod cydweithwyr yn y gwaith sy'n dilyn ffyddiau eraill, ac yn absenoldeb arweinwyr rhwydwaith ar gyfer unrhyw ffyddiau eraill o fewn y sefydliad, pan ofynnir iddynt a chyn belled ag y mae eu gwybodaeth yn caniatáu, byddant yn cynnig sylwadau teg ar anghenion sefydliadol posibl pobl sy'n dilyn ffyddiau eraill, nes bod adeg pan ellir sefydlu rhwydwaith ffydd priodol.

### Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywedd a Menywod

Parhaodd y rhwydwaith i ddatblygu yn ystod 2016, gan ddenu staff o ar draws y sefydliad i gymryd rhan yn ein gwaith.

Gwelsom lwyddiant gyda pholisi absenoldeb rhiant a rennir y sefydliad yn cael ei ddiweddarau, gan ei wneud yn gydraddol â'r ddarpariaeth mamolaeth a mabwysiadu a gynigir i staff.

Yn 2016, sefydlwyd is-grŵp Cymru a Gorllewin Lloegr 'Rhwydwaith Menywod Trawslywodraethol Gwasanaeth Sifil y DU'. Mae hyn yn golygu digwyddiadau neilltuedig



mwy lleol ar gyfer ein staff, a oedd yn cynnwys digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Menywod a gynhaliwyd yn y Senedd ac Adeiladau'r Pierhead yng Nghaerdydd.

Yn 2017, byddwn yn adrodd am ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Fel rhwydwaith, rydym yn cynllunio ein gwaith gyda'n Cyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl ni er mwyn cyfathrebu'r hyn mae hyn yn ei olygu, a pha gamau sydd eu hangen i leihau unrhyw fwch sydd gennym.

Rydym yn parhau i weithio gyda phob rhan o'r sefydliad i gyflawni nod Cyfoeth Naturiol Cymru o gael ei gydnabod yn arweinydd ym maes materion cydraddoldeb rhywedd yng Nghymru ac fel cyflogwr delfrydol ar gyfer unrhyw ryw.

### Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol.

Gyda chymorth Cyfeillion y Rhwydwaith (cynghreiriaid nad ydynt yn hoyw), mae'r rhwydwaith yn parhau i gynyddu ei weladwyedd. Mae'r rhwydwaith hefyd wedi cymryd rhan yng ngorymdaith Pride Cymru eleni, ac roedd ganddo stondin yn nigwyddiad Pride Gogledd Cymru, gan ddangos yn allanol ein bod yn cefnogi staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Mae aelodau o'r rhwydwaith yn rhannu ac yn ymgysylltu ag amrediad eang o ddiwyddiadau cymdeithasol gyda nifer o sefydliadau allanol, gan gynnwys rhwydwaith Llywodraeth Cymru PRISM, yn ogystal â Chwis Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol Stonewall Cymru ym mis Chwefror 2016. Mae aelodau'r rhwydwaith yn cymryd rhan mewn hyfforddiant pêl-droed gyda Dreigiau Caerdydd, yn ogystal â theithiau cerdded wedi'u trefnu yng ngogledd Cymru gyda'r OutdoorLads. Mae'r rhwydwaith yn parhau i weithio gyda sefydliadau Pride yng Nghymru yn rhan o'n gwaith ymgysylltu â chymunedau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol allanol.

Mae'r Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol+ wedi gweithio gyda'r sefydliad i ddarparu cymorth ac ymgynghoriaeth ynglŷn â'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ni, a hefyd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gyflwyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall.

Yn dilyn newidiadau i aelodaeth pwyllgor y rhwydwaith, mae pwyllgor newydd sy'n seiliedig ar rolau wedi cael ei gynnig gan arweinydd newydd y rhwydwaith, Ben Reardon. Gobeithir y bydd y newid hwn yn galluogi'r rhwydwaith i symleiddio adnoddau, gyrru gweithgarwch, a chynyddu gwelededd yn fwy byth.

## Atodiad 1 – Adolygiad o Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2016–17

Amcan	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifoldeb	Statws Coch/Melyn /Gwyrdd
1.1	Mae ein hofferyn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei adolygu, ei symleiddio a'i fabwysiadu	Mae ein hofferyn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gyhoeddi ac yn cael ei ddefnyddio	Mehefin 2016	Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb	Cwblhawyd
Mae cyfarwyddyd ac offeryn asesu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu hadolygu a'u hail-lansio. Mae'r offeryn bellach yn rhoi profiad mwy ymarferol i'r defnyddiwr, gan ei wneud yn fwy sythweledol ac yn creu rhagor o werth yn yr asesiadau o'r effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r offeryn newydd wedi derbyn croeso da.					
1.2	Mae diweddariadau'r Bwrdd ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu cyflwyno dwywaith yn ystod y flwyddyn ariannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno diweddariadau canol blwyddyn ar gydraddoldebau i'r Bwrdd</li> <li>Cyflwyno diweddariadau diwedd y flwyddyn ar gydraddoldebau i'r Bwrdd</li> </ul>	Medi 2016	Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb	Cwblhawyd
			Mawrth 2017		Cwblhawyd
Mae'r papur diwedd blwyddyn eleni yn cyflawni'r terfyn amser ar gyfer yr ail ddiweddariad i'r Bwrdd.					
1.3	Bydd dau ganlyniad isaf yr Arolwg Pobl ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg yn gwella o o leiaf 5% yn ystod 2016–17	Mae C28 yr Arolwg Pobl, 'Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi am y gwaith rwy'n ei wneud', wedi gwella o 5%	Mawrth 2017	Timau Gweithredol ac Arweinyddiaeth	Gwyn

Amcan	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifoldeb	Statws Coch/Melyn /Gwyrdd
1.4	Bydd dau ganlyniad isaf yr Arolwg Pobl ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg yn gwella o o leiaf 5% yn ystod 2016–17	Mae C29 yr Arolwg Pobl, 'Rwy'n credu bod y sefydliad yn parchu gwahaniaethau unigol', wedi gwella o 5%	Mawrth 2017	Timau Gweithredol ac Arweinyddiaeth	Gwyn
1.5	Mae ein Polisi Bwlio ac Aflonyddu yn cael ei gyfathrebu'n eang a'i weithredu, ac mae'n effeithiol	Mae canlyniadau'r Arolwg Pobl sy'n nodi bwlio ac aflonyddu wedi gostwng i 5% neu'n is	Mawrth 2017	Timau Gweithredol ac Arweinyddiaeth	Gwyn
<p>Roedd canlyniadau cynnar Arolwg Pobl 2016 yn dangos gostyngiad gwirioneddol yn y sgoriau cadarnhaol ar gyfer cwestiynau 28 a 29, i lawr o 54% i 47% ar gyfer C28 ac o 63% i 60% ar gyfer C29. Mae'r cwestiwn 'A ydych wedi cael profi bwlio yn ystod y 12 mis diwethaf' yn parhau i fod yn gyson ar 9%, ond gydag un unigolyn yn llai yn ateb 'ydw' ac un unigolyn ychwanegol yn dweud 'mae'n gwell gennyf beidio â dweud'.</p> <p>Mae'r gweithgor Pobl a Thimau yn canolbwyntio ar waith yn y maes hwn, ond ni fydd canlyniadau mesuradwy ar gael tan yr Arolwg Pobl nesaf, a fydd ym mis Hydref 2017.</p>					
2.1	Bydd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl gynlluniau a phrosiectau allanol a mewnol, i sicrhau ein bod wedi ymgynghori â grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, ac wedi gwrandao ar eu hanghenion	Mae manylion ynglŷn â sut rydym wedi targedu grwpiau â nodweddion gwarchoddedig ar gyfer y dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi cael eu cofnodi, ac adroddwyd amdanynt	Mawrth 2017	Cyfarwyddiaeth Mynediad a Hamdden, Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau, a'r Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb	Cwblhawyd
<p>Rydym wedi cynnal nifer o raglenni newid ar lefel uchel yn fewnol trwy Raglenni Newid ein Tîm Uwch-reoli a'n Tîm Arweinyddiaeth – ac yn allanol, gwnaethom gynnal chwe Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ein canolfannau ymwelwyr ac yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Coedwig Niwbwrch.</p> <p>Mae asesiadau effaith y rhaglenni newid ar gael ar ein system rheoli dogfennau mewnol ac mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y canolfannau ymwelwyr ar gael ar <a href="#">wefan</a> Cyfoeth Naturiol Cymru.</p> <p>Dyfyniad o grynodedb gweithredol yr asesiad:</p>					

Amcan	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifoldeb	Statws Coch/Melyn /Gwyrdd
<p>'Nid oes dwywaith nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn bodloni ei rwymedigaethau i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn y gwasanaethau a'r cyfleusterau mae'n eu darparu ar gyfer y chwe chyrchfan ymwelwyr allweddol yn y safleoedd yr ymwelwyd â nhw. Roedd ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio'n agosach gyda grwpiau cyfredol o ddefnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn eglur, ac roedd staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gadarnhaol iawn.'</p>					
3.1	Bydd canllawiau a Chynllun Gweithredu yn cael eu datblygu i gyflawni'r argymhellion a'r camau gweithredu ar gyfer y dyfodol sy'n codi o ganfyddiadau'r 'Archwiliadau Cydraddoldeb' o'n safleoedd hamdden allweddol ni	Mae adroddiad am argymhellion yr 'archwiliadau' o Ganolfan Ymwelwyr a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coedwig Niwbwrch – gan gynnwys cynigion ar gyfer camau gweithredu parhaus a chamau gweithredu yn y dyfodol – wedi cael ei gyhoeddi	Mai 2016	Mynediad a Hamdden	Cwblhawyd
<p>Mae'r adroddiad, sydd bellach wedi cael ei gyhoeddi, wedi gwneud llawer o argymhellion y byddwn yn gallu gweithredu arnynt dros y blynyddoedd nesaf wrth i gyllidebau ganiatáu. Mae <a href="#">Crynodeb Gweithredol</a> ar ein gwefan ac mae copi o'r adroddiad llawn ar gael <a href="#">ar gais</a>.</p>					
3.2	Cynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017–22	Rydym wedi cynnal o leiaf pedwar digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid wyneb i wyneb wrth ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017–22	Rhagfyr 2016	Cynllunio Corfforaethol	Gwyn
<p>Mae'r Cynllun Corfforaethol ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu ein Hamcanion Llesiant a'n Datganiad Llesiant. Mae'r rhain i fod yn barod erbyn mis Mawrth 2017, ac mae angen eu datblygu gan ddefnyddio'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, sydd ei hun yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru – mae hyn yn golygu bod y lle ar gyfer ymgysylltu â'n cwsmeriaid ni'n allanol ar hyn o bryd yn gyfyngedig. Bydd lle ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ymhellach wrth inni ddatblygu ein cynlluniau ymhellach.</p>					
3.3	Cwblhau ein hadolygiad o Ganolbwyntio ar y Cwsmer, gan geisio ymgysylltu â'n cwsmeriaid, cymunedau a rhanddeiliaid	Rydym wedi cwblhau ein hadolygiad o Ganolbwyntio ar y Cwsmer	Medi 2016	Rheolwr Rhaglen Canolbwyntio ar y Cwsmer	Cwblhawyd
<p>Mae'r Rhaglen Canolbwyntio ar y Cwsmer wedi cyflawni'r gyfran arfaethedig o allbynnau rhaglen ar gyfer 2015–16 gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Grŵp Yammer gweithredol</li> <li>Personâu</li> <li>Tudalennau gwe</li> <li>Dangosfwrdd sgerbwd</li> </ul>					

Amcan	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifoldeb	Statws Coch/Melyn /Gwyrdd
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mapio siwrnai cwsmeriaid</li> <li>• Gwelliannau digidol (gan ganolbwyntio ar hygyrchedd)</li> </ul> <p>Rhaid i offerynnau o'r rhaglen feddu ar fanteision y gellir eu dangos i haeddu buddsoddi adnoddau i'r broses o'u defnyddio. Mae rhaglenni peilot, prosiectau ac astudiaethau achos wedi datrys problemau sylweddol yn y busnes, ac mae'r manteision wedi cael eu rhannu. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu offerynnau ychwanegol – yn enwedig ynghylch hyfforddiant mewn gofal cwsmeriaid a pheccynnau sy'n gweithio ar dôn eich llais. Mae prosiect gwella'r wefan wedi cael ei gwmpasu a'i ddechrau, a bu gwaith ar y prosiect hwn yn mynd rhagddo adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.</p> <p>Mae angen inni droi'r manteision cychwynnol bach hyn yn ganlyniadau ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys pecyn gwaith i hyfforddi staff ar bob lefel mewn gwasanaeth cwsmeriaid, ategu'r defnydd o offerynnau rhaglen a sgiliau, a mesur yr effaith. Mae'n rhan o ymgyrch lle gwell i weithio ynddo Marcomms gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n cefnogi'r ymgyrch honno.</p>					
3.4	Rydym yn cynnal gwaith ymgysylltu trwy ddefnyddio arolygon 'Ansawdd Profiad' er mwyn inni ddeall proffil demograffig gymdeithasol ein hymwelwyr	Cynhaliwyd ac adroddwyd am bum arolwg o 'Ansawdd Profiad' a leolir ar y safle	Mawrth 2017	Mynediad a Hamdden	Coch
<p>Nid ydym wedi llwyddo i wneud cynnydd gyda'r agwedd hon ar ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, fe ystyriwn hyn yn ffordd bwysig o ddeall, monitro a gwerthuso demograffig ein hymwelwyr, a'n nod ni yw ailgyflwyno ein gwaith ar Ansawdd Profiad ar ddyddiad yn y dyfodol.</p>					
4.1	Adolygu a diwygio (os oes angen) Cynllun Ymagwedd y Farchnad a'r canllawiau cysylltiedig, i sicrhau bod materion ynglŷn â chydarddoldeb yn cael eu hystyried a'u nodi	Rydym wedi adolygu a diwygio (lle roedd angen) Cynllun Ymagwedd y Farchnad a'r canllawiau cysylltiedig ynglŷn â chaffael	Mawrth 2017	Caffael	Cwblhawyd
<p>Mae templed Cynllun Ymagwedd y Farchnad wedi cael ei ddiwygio, gyda'r fersiwn newydd yn cael ei defnyddio o fis Gorffennaf 2016. Mae'r templed yn gofyn i staff ystyried a chynnwys materion ynglŷn â chydarddoldeb pan fyddant yn berthnasol i ofynion craidd y contract. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal ar ddechrau'r flwyddyn nesaf i weld pa mor dda mae hyn yn cael ei weithredu.</p>					

Amcan	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifoldeb	Statws Coch/Melyn /Gwyrdd
4.2	Bydd y canllawiau ar gyfer materion ynglŷn â chydaddoldeb wrth gaffael yn cael eu cylchredeg i'r holl staff caffael er mwyn codi ymwybyddiaeth	Mae canllawiau ar gyfer materion ynglŷn â chydaddoldeb wrth gaffael wedi cael eu cylchredeg i'r holl staff caffael	Ebrill 2017	Caffael	Cwblhawyd
Cafodd dogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o'r enw 'Canlyniadau Prynu Gwell' ei chylchredeg i'r holl staff caffael ar 24 Chwefror 2016 er mwyn rhoi cyfarwyddyd iddynt.					
4.3	Bydd pawb sy'n cynnig tendr yn defnyddio set gwestiynau'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr, ac fe wneir defnyddio'r dull dwy haen yn orfodol i Cyfoeth Naturiol Cymru	Gwnaed dull dwy haen y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr yn orfodol i Cyfoeth Naturiol Cymru	Ebrill 2016	Caffael	Cwblhawyd
<p>Mae defnyddio'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr wedi cael ei safoni ers 24 Chwefror 2016 ac mae dull dwy haen wedi cael ei fabwysiadu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dull ymyrraeth isel gyda chwestiynau sylfaenol am gydraddoldeb wedi'u cynnwys yn ein camau cyn-gymhwysio ar gyfer pob contract</li> <li>Dull trwyadl gyda chwestiynau am gydraddoldeb sy'n benodol i'r contract yn cael eu cynnwys yn ein camau cyn-gymhwysio ar gyfer contractau lle y nodir bod cydraddoldeb yn ofyniad craidd</li> </ul> <p>Rydym yn gweithio tuag at greu systemau ar gyfer monitro contractau i sicrhau bod perfformiad y cyflenwr yn y maes hwn yn cael ei reoli a'i fonitro i sicrhau bod materion ynglŷn â chydaddoldeb yn cael eu hystyried trwy gydol fywyd y contract.</p>					
5.1	Byddwn yn parhau i fonitro ein proses recriwtio i sicrhau ein byd yn cydymffurfio'n 100% â rhwymedigaethau'r Cynllun Hyder mewn Pobl Anabl	Rydym yn cydymffurfio'n 100% â'r Cynllun Hyder mewn Pobl Anabl sy'n gwarantu cyfweiliad	Mawrth 2017	Recriwtio Gwasanaethau Cymorth Busnes a Phartneriaid Busnes Adnoddau Dynol	Cwblhawyd
<p>Yn rhan o archwiliad blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru gan Ganolfan Byd Gwaith ar 16 Awst, gwnaethom edrych ar y data monitro amrywiaeth a gasglwyd gan y Tîm Recriwtio, a chydabuwyd ein bod yn cyflawni ar y Cynllun Hyder mewn Pobl Anabl.</p> <p>Yn ystod 2016–17, cawsom 17 ymgeisydd yn dweud bod ganddynt anabledd ac yr hoffent gael eu hystyried ar gyfer cyfweiliad gwarantedig.</p>					

Amcan	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifoldeb	Statws Coch/Melyn /Gwyrdd
<p>Cynigiwyd cyfweliad i saith ohonynt  Ni chynigiwyd cyfweliadau i naw ohonynt oherwydd nad oeddent yn bodloni'r meini prawf gofynnol i gyrraedd y rhestr fer  Rydym yn parhau i aros i'r rhestr fer gael ei chwblhau ar gyfer un ohonynt</p>					
5.2	Byddwn yn cael ein harchwilio gan Ganolfan Byd Gwaith yn erbyn ein rhwymedigaethau o dan y Cynllun Hyder mewn Pobl Anabl	Rydym wedi cwblhau'n llwyddiannus ein harchwiliad o'r Cynllun Hyder mewn Pobl Anabl gan Ganolfan Byd Gwaith	Awst 2016	Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb a Recriwtio	Cwblhawyd
<p>Ar 2 Awst, cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru archwiliad llwyddiannus gan Ganolfan Byd Gwaith. Hyd yma, rydym wedi cyflawni holl rwymedigaethau Cynllun Dau Dic 'yn gadarn o blaid pobl anabl'. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf esblygodd y cynllun hwn yn gynllun newydd, '<a href="#">Hyder mewn Pobl Anabl</a>' ac iddo dair lefel: 'Ymroddedig' i Hyder mewn Pobl Anabl, a 'Chyflogwr' ac 'Arweinydd' Hyder mewn Pobl Anabl.</p> <p>O ystyried ei waith yn y maes hwn hyd yma, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael mynediad at y cynllun hwn ar Lefel 2 – Cyflogwr Hyder mewn Pobl Anabl, a thros y ddwy flynedd nesaf byddwn yn gweithio tuag at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• newid agweddau tuag at anabledd</li> <li>• cynyddu dealltwriaeth o anabledd</li> <li>• gwaredu ar y rhwystrau mae pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yn eu hwynebu ym myd cyflogaeth</li> <li>• sicrhau bod pobl anabl yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial a gwireddu eu dyheadau</li> </ul>					
5.3	Byddwn yn dwysáu ein cyfathrebiadau i gynyddu'r gyfradd o bobl sy'n ymateb i'r ffurflen hunanddatgelu, a fydd yn ein caniatáu i nodi'r tueddiadau ynglŷn â chyflogaeth yn gywir er mwyn sicrhau llwyddiant y sefydliad	Bydd y gyfran o bobl sy'n ymateb i'n ffurflen hunanddatgelu ni wedi cynyddu i dros 70% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol	Mawrth 2017	Y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a phob cyfarwyddiaeth	Coch
<p>Mae canran y bobl sy'n ymateb i'r ffurflen hunanddatgelu'n parhau i gynyddu'n araf ond yn gyson, ac ar 20 Chwefror 2017 y ffigur oedd yn 67%. Mae casglu'r data hwn eisoes wedi bod yn fuddiol gan ei fod wedi helpu i lywio darnau o waith megis yr Adolygiad o Uwch-reolwyr a'r Adolygiad Maes Busnes, a hefyd wedi gwella dealltwriaeth o bwy adawodd y sefydliad o ganlyniad i Gynllun Ymadael Gwirfoddol 3. Mae datgelu nodweddion gwarchoddedig yn wirfoddol.</p>					



Amcan	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifoldeb	Statws Coch/Melyn /Gwyrdd
5.4	Byddwn yn sefydlu gweithgor i sicrhau bod cyflwyniad meincnodi o ansawdd uchel yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle	Rydym wedi gwella ein safle meincnodi cydraddoldeb yn 2016 o'r 160fed gweithle gorau yn y Deyrnas Unedig	Ionawr 2017	Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl a Rhwydwaith Staff Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol	Coch
<p>Cafodd gweithgor ei sefydlu yn gynnar ym mis Mehefin, a gwnaeth gyfarfod yn rheolaidd, i sicrhau bod arweinydd ein Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol yn cyflwyno ein cais cyn y dyddiad cau ym mis Mehefin. Dangosodd y canlyniadau gostyngiad bach o'r 160fed safle i'r 184fed safle. Fodd bynnag, dangosodd adborth cychwynnol gan Stonewall Cymru fod llawer o'r sefydliadau ychwanegol a gymerodd ran eleni mewn sefyllfa dda i ddechrau. Fe'n hatgoffwyd ni bod angen i sefydliadau wella o 10% bob blwyddyn er mwyn cynnal yr un safle yn unig. O ystyried cynnydd yn y nifer o gyfranogwyr, rydym ni wedi gwella o 7%.</p> <p>Gwnaeth Stonewall Cymru ein llongyfarch ni hefyd ar y gwelliannau gwych a wnaed ers y llynedd, yn enwedig ym maes caffael a chynnwys pobl drawsrywiol.</p>					



Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 9am – 5pm)  
[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

© Cyfoeth Naturiol Cymru  
Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan  
Cyfoeth Naturiol Cymru

